Priodas yn Cana (troi y dŵr yn win)

Ioan 2: 1-11

Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

	Disgrifiad	Llun	Nodiadau
	Ioan 2: 1-11		
1	Roedd yna briodas yn Cana, pentref yn Galilea.		
2	Roedd mam Iesu yno, ac roedd Iesu a'i ddisgyblion wedi derbyn y gwahoddiad i'r briodas hefyd.		
3	Wrth i'r parti priodas fynd yn ei flaen doedd dim gwin ar ôl.		

4	Dyma fam Iesu'n dweud wrtho, “Does ganddyn nhw ddim mwy o win.”	
5	Atebodd Iesu, “Mam annwyl, gad lonydd i mi. Paid busnesa. Dydy fy amser i ddim wedi dod eto.” Ond dwedodd ei fam wrth y gweision, “Gwnewch beth bynnag fydd yn ei ddweud wrthoch chi.	
6	Roedd chwech ystên garreg wrth ymyl. Roedd pob un ohonyn nhw'n dal rhwng wyth deg a chant dau ddeg litr. Dwedodd Iesu wrth y gweision, “Llanwch yr ystenau yma gyda dŵr.”	
7	Felly dyma nhw'n eu llenwi i'r top.	
8	Yna dwedodd wrthyn nhw, “Cymerwch beth ohono a mynd ag e i lywydd y wledd.”	

9	Dyma nhw'n gwneud hynny, a dyma llywydd y wledd yn blasu'r dŵr oedd wedi ei droi'n win.	
10	Doedd ganddo ddim syniad o ble roedd wedi dod (ond roedd y gweision oedd wedi codi'r dŵr yn gwybod).	
11	Yna galwodd y priodfab ato ac meddai wrtho, “Mae pobl fel arfer yn dod â'r gwin gorau allan gyntaf a'r gwin rhad yn nes ymlaen ar ôl i'r gwesteion gael gormod i'w yfed. Pam wyt ti wedi cadw'r gorau i'r diwedd?”	
12	Y wyrth hon yn Cana Galilea oedd y gyntaf wnaeth Iesu fel arwydd o pwy oedd.	
13	Roedd yn dangos ei ysblander, a dyma'i ddisgyblion yn credu ynddo.	

14	Cyfieithwyd gan www.beibl.net	
15		